Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Is-adran Cynllunio'r PAC
Llywodraeth Cymru
Llawr Cyntaf, Adain y Gorllewin, CP2
Adeiladau'r Goron
Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

19 Ebrill 2013

Annwyl Syr/Madam

**Diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin**
**Cynllun Datblygu Gwledig 2014-2020: Y Camau Nesaf.**

Diolch ichi am ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) am y Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer 2014-2020. Mae ein hymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad i'w weld yn Atodiad 1 at y llythyr hwn.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n gweithio fel rheoleiddiwr, partner a chynghorydd i fusnesau, cyrff anllywodraethol, Awdurdodau Lleol a chymunedau i helpu i roi polisïau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd ar waith. Rydym yn rhoi dull gweithredu ar lefel yr ecosystem ar waith i hyrwyddo datblygu cynaliadwy sy'n dod â manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i bobl Cymru.

Rôl y Cynllun Datblygu Gwledig
Rheoli tir yn gynaliadwy yw un o'r sialensiau mwyaf sy'n wynebu Cymru. Bydd y Cynllun Datblygu Gwledig yn chwarae rhan ganolog yn cefnogi arferion rheoli tir sy'n dod â manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i'r economi wledig ac i bobl Cymru. I wireddu hyn bydd angen i'r Cynllun Datblygu Gwledig gefnogi arferion rheoli tir sy'n canolbwyntio nid dim ond ar gynhyrchu bwyd a ffibr, ond ar gyflenwi'r holl amrywiaeth o wasanaethau ecosystem sy'n hanfodol i sicrhau dyfodol saff, llewyrchus ac iach i holl ddinasyddion Cymru.

Bydd defnyddio'r Cynllun Datblygu Gwledig newydd i ymdrin â rheoli tir yn gynaliadwy drwy ddull gweithredu ar lefel yr ecosystem o fudd i ddinasyddion Cymru a bydd yn gwireddu amryw o flaenoriaethau cenedlaethol a blaenoriaethau o eiddo'r UE sy'n ategu'i gilydd. Mae'r rhain yn cynnwys twf economaidd, cydlyniad cymdeithasol, lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a pherygl llifogydd, gallu i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd, a chyflawni gofynion y Cyfarwyddebau Cynefinoedd, Fframwaith Dŵr, Dŵr Ymdrochi, Dŵr Yfed a Nitradau.

Datblygu Cynaliadwy a Gwasanaethau Ecosystem
Yn ychwanegol at ymyriadau penodol sydd wedi'u nodi yn ein hymateb i'r ymgynghoriad, rydym yn credu y bydd cyfraniad y Cynllun Datblygu Gwledig yn fwy o'i alinio â ffynonellau ariannu ategol. Gall rhaglenni UE eraill a'r sector preifat helpu i gefnogi prosiectau datblygu cynaliadwy seiliedig ar ecosystemau fel y rhagwelir yn Cynnal Cymru Fyw. Mae llawer o brosiectau o'r fath yng Nghymru a fydd yn elwa o arian y Cynllun ac arian ategol.

Mae creu coetiroedd yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru a CNC a dylai chwarae rôl ganolog yn y Cynllun Datblygu Gwledig newydd. Gall plannu ddod â buddion amlweddog. Yn arbennig, mae i goetiroedd y potensial i gyfrannu at welliannau yn ansawdd y dirwedd, bioamrywiaeth, ansawdd dŵr a darpariaeth hamdden yn ogystal â lleihau'r perygl o lifogydd a hyrwyddo dal a storio carbon.

Gweithredu Integredig
Bydd y newid sydd ar fin digwydd i gyfundrefn taliadau uniongyrchol seiliedig ar arwynebedd yn effeithio ar lawer o fusnesau fferm. Gallai llai o gymorth incwm arwain at ddwysau amaethyddol yn lleol, ond gallai cynhyrchiant ddirywio mewn ardaloedd eraill. Dylai'r Cynllun sicrhau bod y newidiadau hyn yn arwain at fuddion net i gymdeithas Cymru drwy wireddu gwasanaethau ecosystem. Bydd ymdrin mewn ffordd integredig ag ailstrwythuro taliadau, gwreiddio'r elfen 'werdd' newydd, ac alinio mesurau'r Cynllun â chronfeydd Strwythurol yr UE yn help i wireddu'r ystod lawn o amcanion amgylcheddol sydd eisoes wedi cael eu nodi gan Lywodraeth Cymru a'r UE.

Cred Cyfoeth Naturiol Cymru fod dyraniad o 75% o leiaf ar gyfer gweithgarwch amaeth-amgylcheddol a gweithgarwch coedwigaeth cysylltiol ar draws cyfnod 2013-20 yn briodol. Darperir tystiolaeth bellach i ategu ein safbwynt ym mhrif gorff ein hymateb. Byddai ffigur o'r fath yn gyson â'r Cynlluniau Datblygu Gwledig blaenorol ac mae'n rhagdybio y bydd cost lawn Glastir Sylfaenol yn cael ei thalu o'r gyllideb amaeth-amgylcheddol. Byddai angen llai o adnoddau pe bai modd i lawer o'r canlyniadau amgylcheddol a geir drwy gynllun Glastir Sylfaenol ar hyn o bryd gael eu cyflawni fel rhan o'r elfen 'werdd' arfaethedig o fewn y system newydd o daliadau uniongyrchol.

Ardaloedd o dan Gyfyngiad Naturiol
Byddai cynllun Ardaloedd o dan Gyfyngiad Naturiol wedi'i seilio ar gymorth incwm yn unig yn arallgyfeirio adnoddau sylweddol oddi wrth rannau eraill o'r Cynllun Datblygu Gwledig, gyda chanlyniadau niweidiol i amcanion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol trosfwaol ar draws Cymru. Byddai datblygu "elfen ucheldir" o fewn Glastir yn un dewis amgen, ond efallai mai'r ateb symlaf yn weinyddol fyddai sefydlu model pedair cyfradd ar gyfer taliadau uniongyrchol (h.y. Gweundir, Ardaloedd dan Anfantais Fawr, Ardaloedd dan Anfantais ac Iseldir). O fewn system o'r fath, gellid pennu'r cyfraddau gweundir a/neu ardaloedd o dan anfantais fawr ar lefelau a fyddai'n golygu na fyddai angen cynllun ardaloedd o dan gyfyngiad naturiol ar wahân yn darparu cymorth incwm ychwanegol fel rhan o'r Cynllun Datblygu Gwledig.

Trosglwyddiadau rhwng Colofn 1 a Cholofn 2
Mae'r cynnig cyfredol i ganiatáu trosglwyddo hyd at 10% o'r gyllideb taliadau uniongyrchol i'r Cynllun Datblygu Gwledig yn debyg i'r darpariaethau modiwleiddio sy'n bodoli o fewn y Rheoliadau CE cyfredol. Mae'r trosglwyddiadau presennol yng Nghymru yn cynnwys 5% o Fodiwleiddio Gorfodol a 4% o Fodiwleiddio Gwirfoddol a defnyddir y derbyniadau i gyd fel sail i gymryd rhan yng nghynlluniau cyfredol Cynllun Datblygu Gwledig Cymru.

Mantais cynyddu cwmpas y Cynllun Datblygu Gwledig yw mai dyma'r unig ran o'r gyllideb rheoli tir sy'n pwysleisio trosglwyddo gwybodaeth, cydweithredu, buddsoddi, arloesi ac ymdrin mewn ffordd ehangach â rheolaeth tir integredig yn cynnwys coedwigaeth. Bydd parhau i roi blaenoriaeth i gymorth incwm o dan y drefn taliadau uniongyrchol yn arwain at batrwm datblygu llawer mwy anwastad, gyda rhai ffermwyr yn defnyddio'r taliadau i wella'u sefyllfa gystadleuol drwy weithredu mwy cynaliadwy sy'n lleihau costau ac yn gwella mynediad i'r farchnad, tra bo eraill yn eu defnyddio i gynnal eu harferion cyfredol, pa un a yw'r rhain yn gynaliadwy yn y tymor hir ai peidio.

Dylunio a Gweithredu'r Cynllun Datblygu Gwledig
Efallai fod nifer llai o gynlluniau wedi'u dylunio'n dda, yn canolbwyntio ar wireddu amryw o ganlyniadau, yn help i wneud i'r Cynllun newydd edrych yn symlach, ond efallai y bydd y systemau/mecanweithiau gweinyddol cyfatebol yn llyncu mwy o adnoddau na'r hyn sy'n cael ei ddefnyddio o fewn y cynlluniau cyfredol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn awyddus i weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i ddatblygu mesurau Cynllun Datblygu Gwledig newydd Cymru yn ogystal â helpu i'w rhoi ar waith lle bynnag y mae hynny'n bosib. Cofiwch gysylltu â'r staff isod yn CNC os hoffech drafod unrhyw agwedd o'n hymateb yn fanylach:

brian.pawson@naturalresourceswales.gov.uk

simon.neale@naturalresourceswales.gov.uk

patrick.green@naturalresourceswales.gov.uk

Yn gywir,

**EMYR ROBERTS**
Prif Weithredwr, Cyfoeth Naturiol Cymru
Chief Executive, Natural Resources Wales

emyr.roberts@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Natural Resources Wales,
Tŷ Cambria, Newport Road, Cardiff CF24 OTP

Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria, Heol Casnewydd, Caerdydd CF24 0TP

**Atodiad 1**

**Diwygio’r Polisi Amaethyddol Cyffredin – Cynllun Datblygu Gwledig 2014-2020: Y Camau Nesaf.**

**Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru/Natural Resources Wales**

***1. A ydych yn cytuno bod y materion allweddol ar gyfer y Gymru wledig wedi cael eu nodi yn y Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau, a’r Dadansoddiad o’r Sefyllfa?***

Rydym yn credu y dylai’r dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau (SWOT) hefyd ystyried sawl mater ychwanegol.

Mae’r newid o daliadau hanesyddol i daliadau arwynebedd sydd ar fin digwydd o dan Gynllun y Taliad Sengl (SPS) ynghyd â’r gostyngiad yng nghyllideb y PAC yn debygol o gael effaith economaidd uniongyrchol ar lawer o fusnesau amaethyddol. Gallai fod effeithiau amgylcheddol negyddol hefyd os bydd ffermwyr yn ceisio adennill incwm a gollwyd drwy gynyddu cynhyrchiant mewn ffordd anghynaliadwy. Hefyd, er bod y rhesymeg wrth wraidd yr ymyriad arfaethedig yn adeiladu ar gysylltiadau rhwng strategaethau LlC a chyfleoedd a nodwyd yn y SWOT, mae angen egluro’r cysylltiadau rhwng y canlyniadau i rai sectorau (boed y rhain yn yr ucheldir neu ar iseldir sy’n cael ei ffermio’n fwy dwys) a sut y gallai’r Cynllun Datblygu Gwledig fynd i’r afael â’r canlyniadau hynny.

Mae’r bygythiad sy’n deillio o lifogydd a sychder amlach a mwy difrifol (o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd) yn darparu fframwaith cryf i sefydlu ymyriadau o dan y Cynllun arno. Gellid pwysleisio’r cyswllt tyngedfennol rhwng defnydd tir, cyfanrwydd hydrolegol/ecolegol dalgylchoedd a chryfder yr economi leol yn gliriach. Hefyd, gellid amlygu o dan flaenoriaeth 5 y byddai’n dda o beth cynyddu effeithlonrwydd o ran defnyddio dŵr.

Mae’r SWOT yn nodi fel cryfder fod ardaloedd eang wedi’u dynodi a bod hynny’n darparu lefel gefndir dda o warchodaeth amgylcheddol. Bydd fframio’r cryfder hwn mewn cyd-destun tirweddol ehangach yn tanlinellu fel mae dull yr ecosystem yn arwain datblygu cynaliadwy yng Nghymru, gan fod gwerth cadwraethol ardaloedd gwarchodedig yn dibynnu’n rhannol ar gyflwr y dirwedd ehangach. Fodd bynnag, dim ond cam cyntaf ar y ffordd i gyrraedd targedau cadwraeth yw dynodi. Er enghraifft, dim ond 53% o dir SoDdGA daearol yng Nghymru sydd dan “reolaeth gadwraethol briodol” (un ai gytundebau rheoli SoDdGA neu Tir Gofal) ar hyn o bryd. Hefyd, efallai na ddaw peth o’r tir sy’n destun cytundebau Tir Gofal ar hyn o bryd (c.70,000ha) i mewn i Glastir Uwch tan ymhell ar ôl i Gynllun Datblygu Gwledig newydd Cymru ddod i rym.

Rydym yn awgrymu rhoi mwy o bwyslais ar gyfleoedd hamdden, twristiaeth wledig, iechyd cyhoeddus ac ansawdd bywyd ar draws Cymru. Mae’n bwysig amlygu cyfraniad tir mynediad (385,000 ha), Hawliau Tramwy Cyhoeddus (33,000 km), Llwybrau Cenedlaethol dynodedig, Llwybr Arfordir Cymru, a’r rhwydwaith ehangach

o lwybrau hamdden i'r economi wledig. Gall y SWOT hefyd ddisgrifio fel y mae cyfraniad genweirio i'r economi wledig yn dibynnu ar y rhyngweithio rhwng defnydd tir gwledig a'r amgylchedd dŵr.

Efallai y byddai'n fuddiol trefnu'r SWOT o fewn pob Blaenoriaeth yn ôl pwysigrwydd a/neu themâu trosfwaol. Er enghraifft, gallai'r cyfle i ddatblygu model ffermio ar gyfer y dyfodol sy'n gynaliadwy'n ariannol ac yn amgylcheddol fod yn amlycach o dan Flaenoriaeth 2. Bydd hefyd yn help i amlygu cyfleoedd lle gall y Cynllun Datblygu Gwledig wireddu targedau deddfwriaeth UE ategol a blaenoriaethau cenedlaethol (e.e. y Cyfarwyddebau Nitradau a Dŵr Ymdrochi).

Gallai iaith fanwl a phenodol wneud gwahanol rannau o'r SWOT yn gliriach. Er enghraifft, gellir cysylltu cyfeiriadau at gyfleoedd a gyflwynir gan "dir ymylol/ansawdd isel" o dan Flaenoriaethau 2 a 4 yn glir â ffermio sydd o werth mawr i natur, bioamrywiaeth a gwasanaethau ecosystem eraill. Efallai hefyd y byddai'n werth nodi bod peth tir ymylol yn darparu gwasanaethau ecosystem a fyddai'n cael eu tanseilio drwy greu coetiroedd.

***2. A ydych yn cytuno y dylai Cymru gyfan fod yn gymwys i dderbyn cymorth Cronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD)? I ba raddau y dylid targedu adnoddau EAFRD ar ardaloedd daearyddol penodol?***

Er bod manteision posibl i ymdrin ag arian EAFRD yn hyblyg yn ddaearyddol, dylai trefn o'r fath adlewyrchu'r gostyngiadau disgwyliedig mewn arian datblygu gwledig, a blaenoriaethu'r buddsoddi i sicrhau nad yw adnoddau'n cael eu gwasgaru'n rhy denau i fod yn effeithiol. Efallai y byddai'n well rhoi sylw i'r mater hwn ar ôl i gyfraniadau'r UE a'r cyfraniadau cenedlaethol i Gynllun Datblygu Gwledig Cymru gael eu sefydlu. Bydd yn bwysig hefyd egluro'r trosglwyddiadau o'r gyllideb taliadau uniongyrchol (fel sy'n digwydd o dan Gynllun Datblygu Gwledig cyfredol Cymru).

Rydym yn awgrymu y dylai Cynllun Datblygu Gwledig nesaf Cymru roi blaenoriaeth i'r sialensiau trosfwaol sy'n cael eu hamlinellu yn nrafft cyfredol Rheoliad Datblygu Gwledig CE. Disgwylir i bob Cynllun Datblygu Gwledig ymdrin â newid yn yr hinsawdd, bioamrywiaeth a rheoli dŵr yn unol â Strategaeth Bioamrywiaeth yr UE a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Dylai o leiaf 20% o holl arian yr UE dargedu gweithgareddau'n ymwneud â newid hinsawdd[1]. Bydd angen i Gynllun Datblygu Gwledig nesaf Cymru sicrhau bod buddsoddi mewn mesurau gwrthsefyll newid hinsawdd hefyd yn cyflawni o ran cyfarwyddebau ategol yr UE a blaenoriaethau cenedlaethol.

Dylai unrhyw ehangu ar gwmpas daearyddol EAFRD gael ei roi ar waith gan ddefnyddio methodoleg glir i sicrhau bod manteision i gefn gwlad Cymru hefyd yn gwireddu amcanion trosfwaol yr UE a LlC. Dylid targedu buddsoddiad Cynllun Datblygu Gwledig Cymru fel bod yr effaith gymdeithasol, economaidd ac ecolegol fwyaf yn cael ei gwireddu.

<u>Rhesymeg Ymyrraeth y Rhaglen</u>

---

[1] Y Cyngor Ewropeaidd (2013). Conclusions on the Multi-annual Financial Framework (paragraff 10). EUCO 37/13, 8 Chwefror 2013, Brwsel. I'w weld ar: http://www.consilium.europa.eu/uedocs/cms_data/docs/pressdata/en/ec/135344.pdf

***3. A ydych yn cytuno â’r ffordd y mae’r cyfleoedd wedi’u trefnu dan bob un o Flaenoriaethau’r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer Datblygu Gwledig***?

Rydym yn awgrymu y dylai’r Rhesymeg Ymyrraeth integreiddio’n gliriach y sialensiau disgwyliedig yn sgil y gostyngiad mewn arian PAC a’r newid i daliadau arwynebedd. Bydd yr integreiddio hwn yn elwa o danlinellu cyfraniad economaidd twristiaeth, mynediad cyhoeddus, a gwella safleoedd dynodedig nes bod eu statws cadwraeth yn ffafriol.

Efallai y byddai’r sail resymegol i Gynllun Datblygu Gwledig nesaf Cymru yn gliriach pe câi’r cyfleoedd i integreiddio’r egwyddorion allweddol eu nodi a’u crynhoi ar ffurf diagram. Bydd hyn yn help i ddangos y cysylltiadau rhwng chwe blaenoriaeth y Comisiwn a’r deunaw maes ffocws ac i ddangos natur integredig y cynllun newydd. Yn arbennig, bydd yn egluro sut caiff y dull ecosystem ei rhoi ar waith drwy ymgysylltu â chymunedau a mudiadau amgylcheddol i gefnogi datblygu gwledig cynaliadwy, darparu gwasanaethau ecosystem, datblygu gallu i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd, a chyrraedd targedau deddfwriaeth yr UE.

Ymyriadau sy’n cael eu cynnig

***4. A ydych yn cytuno gyda’r meysydd cymorth sy’n cael eu cynnig dan y pennawd Cystadleurwydd?***

Un o’r gwendidau a nodwyd yn y dadansoddiad SWOT yw’r diffyg cyfathrebu rhwng y gwahanol sectorau ffermio a darparwyr trosglwyddo technoleg a’r ffaith nad yw’r amgylchedd yn drawsbynciol yn y gweithgareddau hyn. Amlygwyd yr un gwendid yn ystod cyfnod Cynllun Datblygu Gwledig cyntaf Cymru yn 2004[2]. Mae’n dal yn aneglur sut y bydd y cynigion cyfredol o dan benawdau’r Gwasanaeth Cynghori Ffermwyr a Cyswllt Ffermio yn mynd i’r afael â’r diffyg integreiddio hwn. Mae’n bosibl iawn y bydd cyngor amgylcheddol a ddarparwyd dan adain y Gwasanaeth Cynghori Ffermwyr yn pwysleisio’r rhaniad rhwng “busnes” ac “amgylchedd” ymhellach, yn enwedig gan ei bod yn ymddangos bod y rhan fwyaf o ffermwyr yn fwy parod i gysylltu â Cyswllt Ffermio nag â’r Gwasanaeth Cynghori Ffermwyr.

Mae risg fod cyngor amgylcheddol yn cael ei weld gan fusnesau fferm mawr, mwy masnachol, fel rhywbeth amherthnasol yn hytrach na mecanwaith i wreiddio arferion busnes arloesol a phroffidiol[3]. Dylai’r Gwasanaeth Cynghori Ffermwyr a Cyswllt Ffermio felly ganolbwyntio ar helpu ffermwyr i sefydlu’r cysylltiad rhwng gwella’u cystadleurwydd a darparu gwasanaethau ecosystem. Mae pecynnau cyngor integredig effeithiol sy’n addas ar gyfer amryw o sectorau ffermio ar gael

---

[2] Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cyswllt Ffermio. Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2003.

[3] Exploring the Concept of Sustainable Intensification. Adroddiad i Grŵp Polisi Defnydd Tir y DU gan ADAS a Les Firbank Ecosystems. Ionawr 2013. I’w weld ar: http://aplus.adas.co.uk/Services/sustainability/Exploring-the-Concept-of-Sustainable-Intensification.aspx

eisioes[4,5]. Gall Cynllun Datblygu Gwledig newydd Cymru gefnogi gwell lledaenu ar gyngor a chefnogaeth o'r fath sy'n gwneud dulliau 'pawb yn ennill' yn ddichonadwy yn ariannol.

Bydd yn bwysig gwella'r cyngor a'r gefnogaeth i greu a rheoli coetiroedd i sicrhau bod amaethyddiaeth gynaliadwy yn cyflenwi'r ystod lawn o wasanaethau ecosystem a ddymunir. Datgelodd ymchwil ddiweddar gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru fod ffermwyr yn ystyried elfennau coetir yn bwysig er ysgogi ceisiadau i gynlluniau amaeth-amgylcheddol – coedwigaeth, a'u bod yn ganolog hefyd er rhoi cynlluniau ar waith yn llwyddiannus unwaith y bydd contract wedi'i lofnodi[6].

I sicrhau bod cymorth yn gwireddu datblygu cynaliadwy, mae CNC yn awgrymu y dylai Cynlluniau Datblygu Busnes gynnwys asesiadau amgylcheddol sy'n dweud bod rhaid cydymffurfio â safonau amgylcheddol gofynnol a sicrhau dim colledion net o ran gwasanaethau ecosystem.

Mae'r cynigion o dan y mesurau buddsoddi ar gyfer ffermydd a choedwigaeth yn dweud bod angen dadansoddiad sgiliau. Gellid egluro'r mecanwaith a gâi ei ddefnyddio i ddarparu hyfforddiant sgiliau. Wrth egluro byddai'n fanteisiol cynnwys y Bartneriaeth Arloesi Ewropeaidd, gan y bydd llawer o'r mesurau arfaethedig yn gwireddu amcanion CE yn y maes hwn.

Mae dyddodi nitrogen atmosfferig wedi cael effaith fawr ar fioamrywiaeth ddaearol, gan arwain at ostyngiad mewn nifer o rywogaethau planhigion mewn amryw o gynefinoedd gwarchodedig ar draws y DU[7]. Mae amonia yn elfen fawr mewn llygredd nitrogen, ac amaethyddiaeth sy'n gyfrifol am 90% o'r allyriadau amonia ledled Ewrop a'r DU[8]. Gall amonia gael effaith ddirfawr yn lleol ar gynefinoedd sy'n agos at unedau dwys moch, dofednod ac eidion. Daeth Defra i'r casgliad yn ddiweddar fod lleihau allyriadau amonia o amaethyddiaeth yn flaenoriaeth[9]. Mae asiantaethau cadwraeth y DU, o dan nawdd y JNCC ac mewn cydweithrediad agos â Defra a'r Gweinyddiaethau Datganoledig, wrthi'n rhoi rhaglen ar waith ar hyn o bryd i fynd i'r afael ag effeithiau nitrogen ar fioamrywiaeth. Bydd i'r gwaith hwn

[4] Environmental Cost Benefits Datasheets for Farming Connect. Adroddiad i Gyngor Cefn Gwlad Cymru a Llywodraeth Cymru gan Cumulus Consultants ac FWAG Cymru. http://www.cumulus-consultants.co.uk/portfolio-training.html

[5] Integrated Advice Pilot Project. Prosiect wedi'i ariannu gan Defra FF0204. http://www.adas.co.uk/Home/Projects/IAP/tabid/349/Default.aspx

[6] Arolwg o ffermwyr â choetir ar eu tir. Adroddiad i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru gan Wavehill Consulting. Tachwedd 2009.

[7] Collation of evidence of nitrogen impacts on vegetation in relation to biodiversity objectives. (2011) Stevens et al. Adroddiad JNCC 447.

[8] Ammonia and Nature Conservation Factsheet. (2011) Asiantaeth yr Amgylchedd

[9] Review of Transboundary Air Pollution: Acidification, Eutrophication, Ground Level Ozone and Heavy metals in the UK (RoTAP 2012). Adroddiad contract i Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg.

oblygiadau i'r mathau o brosiectau sy'n cael eu cefnogi o dan y mesurau buddsoddi mewn ffermydd.

***5. A ydych yn cytuno gyda'r meysydd cymorth sy'n cael eu cynnig dan y pennawd Amgylchedd?***

Rydym yn croesawu'r cadarnhad y bydd Glastir yn nodwedd amlwg o dan flaenoriaethau 4 a 5. Dylai cyfnod o sefydlogrwydd yn y rhaglen helpu i gynyddu cyfranogiad. Mae yna dargedau Ewropeaidd a chenedlaethol heriol o ran bioamrywiaeth, yr amgylchedd dŵr a newid hinsawdd. Er bod posibl i holl elfennau Glastir gyfrannu at y targedau hyn, mae llawer o'r buddion allweddol wedi'u cyfyngu ar hyn o bryd i ran Uwch y cynllun. Rhaid i Reolwyr Contract Glastir fod yn hyblyg wrth helpu pawb sy'n cymryd rhan i wireddu buddion bras.

Mae CNC hefyd yn cefnogi'r cynnig i ddatblygu cyfleoedd i ddarparu cymorth i weithgareddau sy'n ategu Glastir ac sy'n targedu canlyniadau penodol un ai'n ddaearyddol, neu'n thematig neu'n gydweithredol. Yn arbennig, hoffem weld Cynllun Datblygu Gwledig Cymru yn cefnogi prosiectau cymunedol sy'n canolbwyntio ar ddatblygu economaidd drwy gyflenwi gwasanaethau ecosystem.

Yng nghyd-destun y Mapiau Cig Coch a Godro, rydym yn cefnogi'r nod o wneud y sectorau'n fwy proffidiol a chynaliadwy. Mae'r cyfeiriadau at y Gwasanaeth Cynghori Ffermwyr a Cyswllt Busnes yn briodol. Bydd y drefn integredig a drafodwyd uchod yn sicrhau bod gwelliannau amgylcheddol a gwell cystadleurwydd yn cael eu gwireddu, fel yr amlinellwyd yn ddiweddar yng ngwaith y Cyngor Cefn Gwlad/Llywodraeth Cymru ar ddwysáu cynaliadwy[10].

Mae'r cynnig i dargedu creu perthi a/neu leiniau cysgodi yn briodol. Nodwn greu coetiroedd wrth ymyl nentydd fel ymyriad tyngedfennol arall y mae angen cymorth bras a hyblyg arno. Bydd creu coetiroedd strategol o fudd o ran ansawdd y dirwedd a bioamrywiaeth, dal a storio carbon, gwella ansawdd dŵr a lleihau'r perygl o lifogydd. Bydd coetiroedd llinol yn darparu cysylltedd ac yn gwneud lleiniau cynefin sydd wedi'u hynysu ac ardaloedd gwarchodedig yn gryfach yn weithredol. Lle cânt eu gwireddu drwy gynlluniau ar ran o fferm, dylai trawsgydymffurfio sicrhau lefel sylfaenol o amodoldeb ar weddill y fferm.

Gellid ehangu'r cyfeiriad at "gynllun yn canolbwyntio ar gwrs dŵr sy'n targedu gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr" i gynnwys "cyflawni sy'n canolbwyntio ar ddalgylch" er mwyn tynnu sylw at y cysylltiad rhwng amgylcheddau daearol a dyfrol ac integreiddio'r dull ecosystem i'r ffordd y caiff Cyfarwyddebau ategol yr UE eu rhoi ar waith.

Gall camau gweithredu penodol mewn perthynas â rhywogaethau a chynefinoedd ategu Glastir lle mae i rywogaethau a chynefinoedd targed ddosbarthiad cyfyngedig. Bydd gofyn rhoi mesurau addas yn Glastir ar waith yn eang er mwyn gwarchod rhywogaethau eang eu dosbarthiad (fel llawer o adar fferm a glöynnod

[10] Exploring the concept of Sustainable Intensification. LUPG (2013). *Op cit*

byw. Er enghraifft, mae angen i lawer o'r amodau yn ymwneud â thir âr gael eu cymhwyso ar raddfa'r dirwedd.

***6. A ydych yn cytuno gyda'r meysydd cymorth sy'n cael eu cynnig dan y pennawd Cymuned?***

I ddatblygu economïau gwledig cynaliadwy sy'n gynhwysol yn gymdeithasol bydd angen cefnogi cynlluniau o'r gwaelod-i-fyny sy'n dod â buddion eraill yn eu sgil. Mae CNC yn cefnogi'r dull gweithredu sy'n cael eu gynnig, yn canolbwyntio ar nifer cyfyngedig o ymyriadau allweddol gan ganiatáu hyblygrwydd o ran blaenoriaethau a dulliau cyflenwi.

Cynlluniau trafnidiaeth gymunedol a gwirfoddol

Mae i gynlluniau o'r fath y potensial i gael eu cysylltu â rhaglenni mynediad i gefn gwlad a'r agenda iechyd. Gellid ymdrin â'r materion hyn yn gliriach yn y dadansoddiad SWOT.

Mannau Strategol

Gallai'r cynigion gynnwys dulliau cyfranogi ac ymgysylltu cymunedol yn fwy penodol; mae'r testun ar hyn o bryd yn awgrymu dull o'r 'brig i lawr' yn hytrach nag o'r 'gwaelod i fyny'. Hefyd, gallai fod mwy o bwyslais ar seilwaith gwyrdd. Gellir creu ffocws cymunedol drwy ddatblygu mannau gwyrdd amlswyddogaethol sy'n darparu cyfleoedd i fwyd a dyfir yn lleol; datblygu rhwydweithiau cynnyrch lleol; cynlluniau ynni cymunedol; gwell cyfranogiad cymunedol a chaffael sgiliau newydd. Gall prosiectau o'r fath wella cydlyniant cymdeithasol a darparu buddion iechyd meddyliol a chorfforol wrth gyflenwi amrywiaeth o wasanaethau ecosystem.

Twristiaeth

Gallai'r cynigion gysylltu gwasanaethau ecosystem yn gliriach â datblygu economaidd "seiliedig ar le". Ymysg yr enghreifftiau mae datblygu llwybrau i gysylltu pentrefi â Llwybr Arfordir Cymru, i ddod â budd i'r sectorau llety a gwasanaeth, rhywbeth sydd wedi cael ei wneud yn llwyddiannus mewn mannau eraill yn Ewrop[11]. Byddai cynllun cenedlaethol i roi arwyddion dwyieithog ar bontydd a ffiniau dalgylchoedd yn cyfoethogi profiad ymwelwyr ac yn cynyddu'r "ymdeimlad o le". Rhaid cymryd gofal i sicrhau nad yw'r nifer o ymwelwyr yn peryglu mannau sensitif.

Meysydd ymyrraeth eraill posibl

Nid yw'n glir a oes modd defnyddio'r Cynllun Datblygu Gwledig newydd i ddarparu cyfleoedd i ddysgu sgiliau traddodiadol. Mae yna gyfleoedd i sefydlu busnesau

[11] Mantino, F. (2011). "Developing a Territorial Approach for the CAP". I'w weld ar http://www.ieep.eu/work-areas/agriculture-and-land-management/future-of-the-cap/2011/07/developing-a-territorial-approach-for-the-cap

gwledig newydd wedi'u seilio ar y sgiliau hyn[12], gan gyfrannu at yr economi werdd a rheoli tir yn gynaliadwy. Mae'n bosibl iawn fod gweithgarwch o'r fath yn dod o dan y flaenoriaeth 'Cystadleurwydd', ond os yw, dylid dweud hynny'n fwy penodol.

***7. Beth yn eich barn chi yw'r amgylchiadau priodol ar gyfer darparu cyllid ar ffurf benthyciadau i'w had–dalu?***

Gallai disodli grantiau gyda benthyciadau llog isel (neu ddi-log) fod yn help i gyflawni mwy gydag adnoddau cyfyngedig y Cynllun Datblygu Gwledig ac annog arloesi a menter. Bydd gofyn bod yn ofalus i osgoi cynyddu'r costau gweinyddol. Gallai cyfraddau diffygdalu uchel gyfyngu ar fanteision symud oddi wrth system seiliedig ar grantiau. Gallai benthyciadau gael eu strwythuro gyda gwobrau 'ariannol' i annog gwneud ad-daliadau yn brydlon.

Mae llawer o fusnesau gwledig yn benthyca'n rheolaidd a byddant yn gyfforddus yn gwneud cais am fenthyciadau o dan y Cynllun Datblygu Gwledig. Dylai fod yn ofynnol i fusnesau sy'n ceisio cymorth tuag at brosiectau cyfalaf mawr ddangos bod ganddynt gynlluniau busnes cadarn. Gallai benthyciadau bach eu helpu i gynhyrchu'r cynlluniau hyn.

Dylai cynlluniau benthyca gael eu cyflwyno ar sail dreialu ochr yn ochr â'r systemau grant presennol. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu sail resymegol glir i'r defnydd o fenthyciadau, gyda darpariaeth wrth gefn ar gyfer diffygdalu. Bydd trefn o'r fath yn neilltuol o berthnasol yn y sefyllfaoedd hynny lle nad yw'r ymgeisydd wedi gallu cael arian masnachol oherwydd natur arloesol y prosiect a/neu'r risg sylweddol. Dylai telerau ac amodau pob benthyciad ei gwneud yn ofynnol cydymffurfio â'r safonau amgylcheddol gorau, gyda'r cymorth yn cael ei dargedu at y prosiectau hynny sy'n darparu datblygiadau craff, cynaliadwy a chynhwysol.

***8. Pa ganran o'r buddsoddiad EAFRD y dylid ei dargedu ar weithgarwch amaeth–amgylcheddol a pham?***

Rydym yn argymell dyrannu o leiaf 75% ar gyfer gweithgareddau amaeth-amgylcheddol. Mae'r ganran hon yn gyson â'r Cynllun blaenorol ac mae'n rhagdybio y caiff Glastir Sylfaenol ei ariannu'n llwyr gan y gyllideb amaeth-amgylcheddol yn hytrach nag elfen werdd y system Taliadau Uniongyrchol newydd.

Gellir cyfiawnhau'r dyraniad hwn am y rhesymau canlynol:

- Och yn ochr â LEADER, rhaid sefydlu rhaglen amaeth-amgylcheddol o dan y Rheoliad Datblygu Gwledig drafft. Profwyd bod cynlluniau o'r fath yn ffordd o gyflawni gofynion Strategaeth Bioamrywiaeth a Chyfarwyddeb Fframwaith Dŵr CE, gan leihau'r risg o dor-dyletswydd a chyfrannu at economi ardaloedd gwledig[13,14].

[12] The role of Tir Gofal in stimulating work for land-based contractors in Wales. Adroddiad terfynol i Gyngor Cefn Gwlad Cymru, Fforwm Tirlun ac Awdurdod Datblygu Cymru. Cyflwynwyd gan Agra-CEAS Consulting. Mai 2006.

[13] "A review of environmental benefits supplied by agri-environment schemes". Boatman, N., Ramwell, R., Parry, H., Jones, N., Bishop, J., Gaskell, P., Short, C,. Mills, J., a Dwyer, J. Adroddiad i'r Grŵp Polisi Defnydd Tir gan Central Science Laboratory a Countryside and Community Research Unit. Awst 2008.

- Amcangyfrifwyd bod maint yr ymyriadau sy'n ofynnol i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru o ran bioamrywiaeth, tirweddau diwylliannol, lliniaru newid hinsawdd, rheoli perygl llifogydd, iechyd pridd, ac ansawdd dŵr yn £165M y flwyddyn[15]. Er gwaethaf y ffaith nad yw wedi cael ei addasu ar gyfer chwyddiant er 2009, mae'r ffigur hwn yn dal bron ddwywaith y swm sydd wedi'i ddyrannu i'r rhaglen amaeth-amgylcheddol bresennol.

- Mae'r Rheoliad Datblygu Gwledig drafft yn cyfeirio bellach at y mesur "amaeth-amgylchedd **a** hinsawdd" er mwyn tanlinellu cynnig y Cyngor Ewropeaidd y dylai 20% o holl arian yr UE gael ei neilltuo i ymladd newid yn yr hinsawdd[16]. Er enghraifft, mae grantiau effeithlonrwydd Glastir yn helpu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr tra mae ymyriadau eraill drwy daliadau uniongyrchol yn cryfhau'r gallu i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd (e.e. mae coetiroedd ger glannau afonydd yn gostwng tymheredd y dŵr ac yn lleihau'r perygl llifogydd).

- Mae cynllun Glastir yn cael ei dderbyn yn gynyddol gan ffermwyr a gallai gostyngiad yn yr arian gyfyngu ar y cynnydd. Gallai galw am Glastir gynyddu yn sgil y cylch diweddaraf o ddiwygiadau PAC, yn enwedig os bernir bod rhaid bod yn aelod o gynllun amaeth-amgylcheddol er mwyn darparu'r "cyfwerthedd" angenrheidiol yng nghyswllt unrhyw ofynion gwyrdd newydd o dan Golofn 1.

- Ni fydd holl wariant amaeth-amgylcheddol y dyfodol yn cael ei gyfyngu i Glastir. Fel y disgrifiwyd ar dudalennau 34 a 35 o'r ddogfen ymgynghori, mae cyfleoedd i fabwysiadu amrywiaeth o ddulliau gweithredu newydd, yn cynnwys prosiectau seiliedig yn y gymuned yn yr amgylchedd anamaethyddol; cynlluniau peilot ar y thema nwyddau a gwasanaethau ecosystem; creu perthi, lleiniau cysgodi a choetiroedd ar lannau afonydd, a hynny wedi'i dargedu; cynlluniau sy'n canolbwyntio ar ddalgylch a gweithredu penodol yn gysylltiedig â rhywogaethau a chynefinoedd. O ystyried yr amrywiaeth o gynlluniau rhan-o-fferm a chydweithredol y byddai modd eu datblygu i gyd-fynd â Glastir, mae'n ymddangos yn debygol y bydd angen mwy fyth o arian yn y dyfodol nag sydd ar gael ar hyn o bryd.

- Er y bydd y ffaith fod rhai o'r 7000 o gytundebau fferm gyfan Tir Gofal a Tir Cynnal yn dod i ben ar 31ain Rhagfyr 2013 yn golygu llai o alw efallai am arian amaeth-amgylcheddol ym mlynyddoedd cynnar Cynllun Datblygu Gwledig newydd Cymru, mae llawer o'r ffermydd hyn yn darparu llawer iawn o nwyddau cyhoeddus ar ffurf ansawdd dŵr, rheoli carbon, rheoli'r dirwedd a bioamrywiaeth. Bydd cefnogi

---

[14] "Socio-Economic Evaluation of Tir Gofal". Adroddiad i Gyngor Cefn Gwlad Cymru gan Agra-CEAS Consulting. Ionawr 2005.

[15] "Estimating the Scale of Future Environmental land Management Requirements for the UK". Cao,Y., Elliott, J., McCracken, D., Rowe, K., Whitehead, J. a Wilson L. Adroddiad i'r Grŵp Polisi Defnydd Tir gan ADAS a Scottish Agricultural College. Rhagfyr 2009.

[16] Y Cyngor Ewropeaidd (2013). Conclusions on the Multi-annual Financial Framework (paragraff 10). EUCO 37/13, 8 Chwefror 2013, Brwsel. I'w weld ar: http://www.consilium.europa.eu/uedocs/cms_data/docs/pressdata/en/ec/135344.pdf

rhoi ffermydd pwysig ar y llwybr carlam i mewn i Glastir Uwch yn cyd-fynd â dull Llywodraeth Cymru o gyflenwi gwasanaethau ecosystem[17].

LEADER

***9. A ydych yn cytuno y dylai LEADER fynd yn ôl at y cysyniad gwreiddiol gyda'r cymorth yn canolbwyntio ar arloesi, profi ffyrdd newydd o weithio, rhwydweithio a gwaith cymunedol o'r gwaelod i fyny?***

Mae LEADER yn adeiladu ar brofiad grwpiau cymunedol lleol presennol i gefnogi arloesi a datblygiad prosiectau peilot, er y gallai'r gofynion archwilio llym fod yn llestair i brosiectau risg uchel. Mae LEADER wedi ennill ei blwyf erbyn hyn a gellir ei ddefnyddio'n ehangach i gefnogi ffyrdd integredig o weithio ar draws mesurau. Yn arbennig, mae'r dull "o'r gwaelod i fyny" dan arweiniad y gymuned a ddefnyddir yn LEADER yn gwrthgyferbynnu'n gryf â'r dull "o'r brig i lawr" a ddefnyddir gan amlaf o dan gynlluniau Echel 1 a 2.

Nid yw'n glir sut y bydd dychwelyd at gysyniad gwreiddiol LEADER yn darparu ar gyfer y posibilrwydd o ddefnyddio Arian Datblygu Lleol o Dan Arweiniad y Gymuned i gefnogi gweithgareddau amaeth-amgylcheddol. Mae defnyddio Swyddogion Datblygu Tir Comin i helpu Cymdeithasau Pori gyda cheisiadau Glastir wedi bod yn llwyddiannus iawn, a dylai'r dull hwn o hyrwyddo cynlluniau rheoli tir cynaliadwy cydweithredol gael ei gynnwys yn y Cynllun Datblygu Gwledig newydd. Dylai cymorth fod ar gael i gynnal prosiectau llwyddiannus y tu hwnt i'r cyfnod yn eu datblygiad sy'n cael ei ariannu drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig

Er ein bod yn croesawu'r cynnig i roi pwyslais cryf ar gydweithredu ac adnoddau lleol, rydym yn awgrymu y byddai'n fwy priodol siarad am hyrwyddo "defnydd cynaliadwy" neu "reolaeth gynaliadwy" yn hytrach na datblygu cynaliadwy.

***10. O ran defnydd daearyddol LEADER ar gyfer 2014–20, pa un o'r opsiynau a gyflwynwyd fyddech chi'n ei gefnogi?***

Mae wedi cymryd amser i'r Grwpiau Gweithredu Lleol ddatblygu ffordd o ymdrin â'u gwaith sydd yn wirioneddol "o'r gwaelod i fyny". Gallai newid strwythurol beryglu rhai prosiectau yn ystod blynyddoedd cynnar y rhaglen newydd. Felly, mae'r esblygu graddol ar strwythurau gweinyddol o dan opsiwn 1 (yn arbennig, opsiwn 1b), yn ymddangos yn briodol.

Mae profiad yn awgrymu nad yw'r Grwpiau Gweithredu Lleol bob amser wedi datblygu'r strwythurau cydweithredol sy'n ofynnol i wireddau prosiectau mwy ar draws ffiniau Grwpiau Gweithredu Lleol. Yn arbennig, ni fydd opsiwn 1(a) nac 1(b) yn mynd i'r afael â'r anawsterau a wynebwyd wrth geisio cyd-drefnu gwaith mewn rhanbarthau daearyddol diffiniedig sy'n cael eu cwmpasu gan fwy nag un Grŵp Gweithredu Lleol (e.e. Mynyddoedd y Cambria neu Biosffer Dyfi).

[17] "Cynnal Cymru Fyw". Papur Gwyrdd ar ddull newydd o reoli adnoddau naturiol Cymru. Ionawr 2012.

Mae i opsiynau 2 a 3 anfanteision clir. Bydd y cyntaf yn lleihau gallu Grwpiau Gweithredu Lleol i gryfhau'r cyswllt rhwng cymunedau gwledig a threfol (yn unol â'r agenda iechyd a chynhwysiant cymdeithasol), tra gallai'r olaf danseilio gallu LEADER i gyflawni prosiectau seiliedig yn y gymuned, o'r gwaelod i fyny, sy'n sensitif i anghenion lleol. O dan opsiwn 3 efallai na fyddai gan Grwpiau Gweithredu Lleol ddigon o ffocws, yn enwedig os byddant yn cynnwys ardal mwy nag un Awdurdod Lleol ac ystod amrywiol o anghenion lleol.

Yn olaf, efallai y byddai trefn wedi'i seilio ar nifer llai o brosiectau mwy yn lleihau'r perygl o fethiant, ond byddai'n groes i brofiad y llu o brosiectau (a busnesau) cymunedol llwyddiannus a ddaeth i fodolaeth i ddechrau fel mentrau bach.

Is-themâu

***11. Yn eich barn chi, oes sail dros gael is–thema Ucheldir? Beth yw'r dadleuon economaidd? Pa fath o ymyriadau fyddai'n werthfawr?***

Mae is-thema ucheldir yn briodol a gall gyfuno mesurau cymorth y Cynllun er mwyn mynd i'r afael â phroblemau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Cafodd ffyrdd posibl o wneud amaethyddiaeth yn fwy proffidiol, gwneud rheoli tir yn fwy cynaliadwy, gwella'r ddarpariaeth gwasanaethau lleol a gwella perfformiad busnes eu hamlygu yn yr adroddiad diweddar gan Fforwm Ucheldir Cymru[18], a bydd angen eu rhoi ar waith mewn ffordd gydategol a synergaidd.

Mae ucheldir Cymru yn bwysig yn ddiwylliannol. Mae'n adlewyrchu'r cymeriad cenedlaethol ac mae'n gartref i gyfran uchel o'r siaradwyr Cymraeg. Mae'r ucheldir yn bwysig o ran tirwedd a bioamrywiaeth ac yn cynnal y diwydiannau ffermio, coedwigaeth a thwristiaeth. Mae'r ardaloedd hyn hefyd yn help i reoli'r perygl o lifogydd, maent yn darparu adnoddau dŵr, yn dal a storio carbon, ac yn cynnig cyfleoedd i gynhyrchu ynni adnewyddadwy. Maent yn cynnal hamdden, yn cyfrannu at yr economi wledig, ac yn gwella iechyd a lles trigolion a thwristiaid.

Mae cymunedau'r ucheldir yn rhannu'r un dyheadau â phobl yng ngweddill Cymru: economi leol lewyrchus, gwasanaethau cyhoeddus da ac amgylchedd lleol o ansawdd uchel. Mae bodloni'r dyheadau hynny yn her. Mae'r cyfuniad o leoliadau anghysbell, poblogaethau gwasgaredig sy'n heneiddio ac anawsterau cyfathrebu yn dwysáu'r ansicrwydd economaidd a chymdeithasol.

Mae ymchwil ddiweddar yn dangos bod "dull tiriogaethol" o roi'r Cynllun Datblygu Gwledig ar waith yn gallu gwella llywodraethu lleol a hybu dylunio prosiectau a datblygu capasiti[19]. Mae enghreifftiau'n dangos sut y gall y dull arwain at werth ychwanegol mewn amaethyddiaeth, ehangu refeniw o dwristiaeth a chynyddu'r cymorth i ardaloedd gwarchodedig.

---

[18] Datgloi Potensial yr Ucheldir: Adroddiad gan Fforwm Ucheldir Cymru. Rhagfyr 2012.

[19] Mantino, F. (2011). "Developing a Territorial Approach for the CAP". I'w weld ar http://www.ieep.eu/work-areas/agriculture-and-land-management/future-of-the-cap/2011/07/developing-a-territorial-approach-for-the-cap

Bydd gofyn bod yn ofalus wrth ddiffinio hyd a lled ucheldiroedd Cymru yn ddaearyddol. Mae ffiniau cyfredol yr ardal dan anfantais fawr yn cyd-fynd ag ardaloedd mynyddig Cymru, ond o ystyried natur gydgysylltiedig economi'r ucheldir, efallai y dylid cynnwys trefi marchnad a chanolfannau gwasanaeth cyfagos[20]. Gallai thema ucheldir fod yn berthnasol i dipyn mwy na hanner y wlad, a bod yn elfen fawr o'r Cynllun Datblygu Gwledig. Dull arall fyddai datblygu set o strategaethau tiriogaethol integredig yn cwmpasu'r cyfan o'r Gymru wledig, gyda phob strategaeth yn canolbwyntio at gyflawni mesurau'r Cynllun o fewn ardal benodedig. Mae dalgylchoedd afonydd yn cynnig unedau naturiol ar gyfer dull o'r fath.

O fewn y dull hwn sy'n "seiliedig ar le", gallai is-set o fesurau, yn cynnwys unrhyw gynllun newydd i Ardaloedd o dan Gyfyngiad Naturiol, dargedu'r ucheldir. Gellid darparu cymorth incwm i amaethyddiaeth drwy Daliadau Uniongyrchol i ganiatáu i ffermwyr gael budd economaidd drwy gyflenwi gwasanaethau ecosystem megis dal a storio carbon, lliniaru llifogydd, adnoddau dŵr a bioamrywiaeth.

Gallai cynllun Ardaloedd o dan Gyfyngiad Naturiol wedi'i seilio'n llwyr ar gymorth incwm arallgyfeirio adnoddau oddi wrth rannau eraill o'r Cynllun Datblygu Gwledig, gan effeithio ar amcanion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ar draws Cymru. Mae datblygu "elfen ucheldir" o fewn Glastir yn un ateb, ond efallai mai'r ateb symlaf yn weinyddol fyddai sefydlu model pedair cyfradd ar gyfer taliadau uniongyrchol (h.y. Gweundir, Ardaloedd dan Anfantais Fawr, Ardaloedd dan Anfantais ac Iseldir). Gellid pennu'r cyfraddau gweundir a/neu ardaloedd o dan anfantais fawr ar lefelau a fyddai'n golygu na fyddai angen cynllun Colofn 2 ar wahân.

***12. Yn eich barn chi, oes sail dros gael is–thema Pobl Ifanc neu Ffermwyr Ifanc? A ddylai'r ffocws fod ar Bobl Ifanc yn gyffredinol neu Ffermwyr Ifanc, a pham? Pa fath o ymyriadau fyddai'n werthfawr?***

Dylai cymorth i bobl ifanc barhau o dan y Cynllun Datblygu Gwledig nesaf. Gall pob busnes gwledig elwa o gael newydd-ddyfodiaid ifanc gyda syniadau newydd, egni a brwdfrydedd. Mae hyn yn arbennig o wir am ffermio. Mae'r Cynllun Taliad Sengl wedi rhoi mwy o hyblygrwydd i ffermwyr i benderfynu ar gyfeiriad eu busnesau. Mae pobl ifanc yn tueddu i fod yn fwy arloesol a byddent yn helpu economïau gwledig i ymaddasu i flaenoriaethau a disgwyliadau cymdeithas wrth iddynt newid.

Dylai ymyriadau priodol ar gyfer fersiwn newydd o'r Cynllun Cymorth i Newydd-ddyfodiaid gael eu seilio ar werthusiadau o'r cynllun cyfredol. Yn arbennig, rhaid i'r ddarpariaeth hyfforddiant, cyngor a chymorth ariannol i newydd-ddyfodiaid ifanc gael ei seilio ar ymrwymiad i arferion rheoli tir cynaliadwy.

Dylai unrhyw fesurau cymorth ychwanegol a dargedir at newydd-ddyfodiaid i ffermio ddefnyddio'r maes prawf 'hyd at 40'. Mae llawer o'r bobl hyn yr un mor debygol o hyrwyddo arloesi ag yw newydd-ddyfodiaid gwirioneddol ifanc, yn enwedig pe bai'r trothwy cymhwyso yn cael ei osod ar 'hyd at 25'.

[20] Datgloi Potensial yr Ucheldir. *Op cit*

Mae annog newydd-ddyfodiaid ifanc i ffermio hefyd yn cyfrannu at gymunedau gwledig yn fwy cyffredinol, ond mae'n ymddangos y byddai'n werth ymestyn dull y Cynllun Cymorth i Newydd-ddyfodiaid i gwmpasu ystod ehangach o ddiwydiannau yn cynnwys contractio, coedwigaeth, cadwraeth, adfer, hamdden a thwristiaeth. Megis gydag is-thema arfaethedig yr ucheldir, bydd rhaid pecynnu gwahanol fesurau cymorth Cynllun Datblygu Gwledig Cymru fel rhan o raglen gymorth integredig a all ychwanegu gwerth i bob un o'r ymyriadau a gynigir o dan gynlluniau unigol.

Cydraddoldeb

***13. A ydych yn credu bod trin cydraddoldeb fel thema drawsbynciol yn ddigonol, neu oes sail dros ymyriad penodol? Pa fath o ymyriad fyddai'n werthfawr, a pham?***

Dim sylw.

Fframwaith Cyflawni

***14. A ydych yn cytuno gyda'r fframwaith cyflawni arfaethedig a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru i weithredu'r Cynllun Datblygu Gwledig nesaf?***

Mae strategaeth y Cynllun arfaethedig yn rhoi pwyslais cryf ar 'gystadleurwydd busnes' mewn ystyr traddodiadol, cul. Er bod bod yn fwy cystadleuol yn un o'r tri amcan o eiddo'r UE sydd wedi'i nodi yn y Rheoliad Datblygu Gwledig drafft, mae'n glir yn y Rheoliad fod rhaid i arian EAFRD gyfrannu at y flaenoriaeth datblygu gwledig cynaliadwy yn Strategaeth 2020 Ewrop. Ynghyd ag ymgynghoriad Llywodraeth Cymru'n ddiweddar ynghylch "Cynnal Cymru Fyw", awgrymwn y dylai'r cysyniad o 'gystadleurwydd economaidd gwledig' gael ei adeiladu o amgylch yr angen i'r Cynllun Datblygu Gwledig gynnal ymyriadau sy'n darparu'r ystod lawn o wasanaethau naturiol i gymdeithas Cymru drwy ymdrin â datblygu cynaliadwy drwy'r dull ecosystem.

Mae cyfraniadau cymharol twristiaeth/hamdden a chynhyrchiant amaethyddol digymorth i economi Cymru yn tanlinellu'r angen i ystyried cystadleurwydd o safbwynt ehangach. Yn arbennig, mae cyfraniad economaidd rheoli tir yn gynaliadwy yn cynnwys yr holl nwyddau a gwasanaethau a gwmpasir gan y dull ecosystem, nid dim ond gwasanaethau darparu a gâi eu cydnabod yn draddodiadol.

***15. Sut fedrwn ni wella aliniad y Cynllun Datblygu Gwledig â ffynonellau ariannu eraill a chael y budd mwyaf posibl?***

Mae'r gofyniad yn y Rheoliad Rheolau Cyffredin am "Gontractau Partneriaeth" wedi'i fwriadu i sicrhau bod holl ffrydiau ariannu'r UE o fewn Aelod Wladwriaeth yn cael eu hintegreiddio. Mae'n rhoi cyfle i wella aliniad ffrydiau ariannu'r UE, ond mae'n ymddangos bod contractau o'r fath yn canolbwyntio'n bennaf ar ddangos y lefel angenrheidiol o gydlyniad ar lefel yr Aelod Wladwriaeth.

Wrth ymateb i ymgynghoriad cyfochrog Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r defnydd o Gronfeydd Strwythurol yr UE, rydym wedi cynnig y dylai'r cysyniad o 'Seilwaith Gwyrdd' fod yn sail i bob buddsoddiad mawr o dan raglenni ariannu'r UE. Mae'r

cysyniad yn cefnogi creu rhwydwaith o fannau gwyrdd a nodweddion amgylcheddol eraill o ansawdd uchel sydd wedi'u cynllunio'n strategol. Dylai rhwydwaith o'r fath gael ei ddylunio a'i reoli fel adnodd amlswyddogaethol a all wireddu ystod eang o fuddion amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol i gymunedau lleol. Gall mannau o'r fath liniaru llifogydd, cynnig darpariaeth hamdden, addysg amgylcheddol, cynhyrchu bwyd yn lleol, hybu cydlyniad cymunedol a gwella iechyd a lles. Gall llawer o elfennau yn y Cynllun Datblygu Gwledig newydd ategu datblygiadau seilwaith gwyrdd ar draws Cymru, yn enwedig drwy'r mesurau amgylcheddol a chymunedol.

Gall ffynonellau ariannu fel rhaglen LIFE gefnogi prosiectau penodol (e.e. adfer gorgors ar y Berwyn a ffendir ar Ynys Môn) sy'n gwireddu enillion ar unwaith o ran cadwraeth a gwasanaethau ecosystem. Gall y rhaglen amaeth-amgylcheddol helpu i gynnal ac ymestyn y buddion hyn drwy ariannu tymor hir. Mae'n bwysig gwneud yn fawr o fuddion prosiectau o'r fath gan eu bod yn darparu'r sylfaen tystiolaeth i argyhoeddi rheolwyr tir fod darparu gwasanaethau ecosystem yn gydnaws â gweithgarwch economaidd traddodiadol.

Mae annog mwy o gyfranogiad gan y sector preifat yn ffordd arall o weithredu. Er enghraifft, mae sawl cwmni dŵr yn Lloegr wedi buddsoddi mewn prosiectau i leihau colledion carbon a gwella ansawdd dŵr drwy reoli tir[21]. Mae gwaith diweddar gan Fforwm yr Ucheldir wedi tynnu sylw at gost effeithiolrwydd dulliau o'r fath[22]. Nid yw'r math hwn o ymwneud gan y sector preifat ond yn ei fabandod, ond mae dulliau tebyg i'w gweld yn briodol ar draws Cymru a rhaid peidio â'u cyfyngu i'r ucheldir yn unig. Gall arian y Cynllun Datblygu Gwledig yn y dyfodol ategu buddsoddiad corfforaethol mewn ymyriadau rheoli tir sy'n gwella ansawdd dŵr ac yn dod â budd i holl ddinasyddion Cymru. Gall prosiectau o'r fath wireddu buddion hefyd o ran bioamrywiaeth, perygl llifogydd a dal a storio carbon.

Yn olaf, mae arian domestig wedi chwarae rhan bwysig erioed mewn Cynlluniau Datblygu Gwledig blaenorol. Mae gweithgor y Cynllun Datblygu Gwledig ar goedwigaeth wrthi ar hyn o bryd yn ystyried y defnydd o arian domestig ar gyfer cynlluniau cychwynnol. Mae'r model hwn wedi cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus yn y gorffennol, yn enwedig pan nad oedd arian UE yn briodol. Er enghraifft, roedd y cynllun coedwigaeth cychwynnol 'camau cyntaf' blaenorol yn annog perchenogion coetiroedd i ymuno â chynlluniau mwy cynhwysfawr.

***16. Sut fedrai'r gwaith o weithredu'r Cynllun Datblygu Gwledig gael ei symleiddio yn y dyfodol?***

Wrth roi'r Cynllun ar waith byddai'n elwa pe byddid yn canolbwyntio ar gyfres o ymyriadau syml sy'n cael eu targedu'n strategol ac sy'n hyblyg yn weithredol. Byddai ceisio defnyddio'r holl fesurau newydd (megis y pecyn cymorth rheoli risg) yn y Rheoliad Datblygu Gwledig drafft yn tanseilio'r agenda symleiddio. Gall canolbwyntio ar y mesurau sy'n fwyaf perthnasol i anghenion Cymru wledig ac amcanion Cyfarwyddebau eraill yr UE fod yn fodd i flaenoriaethu. Bydd yn bwysig

[21] Gwybodaeth bellach i'w gweld ar: http://corporate.unitedutilities.com/scamp-index.aspx

[22] Datgloi Potensial yr Ucheldir. Op cit. tudalennau 34-35

sicrhau bod egwyddorion targedu a hyblygrwydd yn dylanwadu cyn belled â 'cham cyflawni' ymyriadau sy'n cael eu cefnogi gan y Cynllun Datblygu Gwledig.

Y mater allweddol yw a all y Cynllun Datblygu Gwledig newydd gyflawni gwell canlyniadau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Mae'r adroddiad diweddar, Hwyluso'r Drefn, yn gwneud argymhellion i wella'r cyflawni o safbwynt cyfranogwyr unigol. Mae rhai o'r cynigion hyn yn gymharol syml ac yn golygu newidiadau cymharol fach i arddull y wybodaeth ysgrifenedig sy'n cael ei darparu. Gallai is-themâu arfaethedig y Cynllun Datblygu Gwledig hefyd wella argraffiadau pobl o'r Cynllun Datblygu Gwledig ar draws Cymru wledig.

Bydd dull integredig o ddefnyddio dwy Golofn y PAC yn help gyda'r broses symleiddio. Er enghraifft, gellid strwythuro'r gyfundrefn Taliadau Uniongyrchol yng Ngholofn 1 yn y fath ffordd ag i osgoi'r angen am gynllun Ardaloedd o dan Gyfyngiad Naturiol o dan Golofn 2. Byddai sicrhau bod y taliadau gwyrdd arfaethedig o dan Golofn 1 yn cael eu defnyddio yn y fath ffordd ag i leihau'r angen am gynllun Glastir Sylfaenol hefyd yn help i symleiddio'r Cynllun.

***17. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny.***

Trosglwyddo rhwng Colofn 1 a Cholofn 2
Mae'r cynnig i ganiatáu i hyd at 10% o'r gyllideb Taliadau Uniongyrchol gael ei throsglwyddo i'r Cynllun Datblygu Gwledig yn debyg i'r darpariaethau modiwleiddio yn y Rheoliadau CE cyfredol. Mae'r gyfradd yng Nghymru ar hyn o bryd yn cynnwys 5% o Fodiwleiddio Gorfodol a 4% o Fodiwleiddio Gwirfoddol, a chaiff y derbyniadau i gyd eu defnyddio i gynnal cynlluniau presennol Cynllun Datblygu Gwledig Cymru.

Mantais cynyddu maint dyraniad y Cynllun Datblygu Gwledig yw mai dim ond rhan yw hyn o'r gyllideb amaethyddol sy'n cael ei neilltuo i hyrwyddo diwydiant mwy cynaliadwy drwy drosglwyddo gwybodaeth, cydweithredu, buddsoddi ac arloesi. Gallai parhau i roi blaenoriaeth i gymorth incwm arwain at batrwm datblygu anwastad, gyda rhai ffermwyr yn defnyddio'r taliadau i wella'u sefyllfa gystadleuol drwy weithredu mwy cynaliadwy sy'n lleihau costau ac yn gwella'u cyfran o'r farchnad, tra bo eraill yn defnyddio'r taliadau i ehangu eu harferion presennol, gan anwybyddu'r meini prawf cynaliadwyedd.

Bydd mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, rheoli dŵr a dirywiad mewn bioamrywiaeth yn ystod Cynllun Datblygu Gwledig nesaf Cymru yn lleihau'r angen i ddarparu atebion drutach yn y dyfodol. Er enghraifft, canfu adolygiad Stern[23] y bydd buddsoddi 1% o'r cynnyrch mewnwladol crynswth nawr i ddelio â newid hinsawdd yn help i osgoi cynnydd triphlyg mewn gwariant. Mae pwyntiau tebyg wedi cael eu gwneud gan Dŷ'r Arglwyddi ynglŷn â'r angen am fwy o bwyslais ar

[23] The Stern Review on the Economics of Climate Change, 30ain Hydref 2006: http://www.hm-treasury.gov.uk/stern_review_report.htm

ymchwil a datblygu a Gwasanaeth Cynghori Busnesau Gwledig a all ddarparu cyngor ymarferol i reolwyr tir[24].

Mae gwariant o dan y Cynllun Datblygu Gwledig hefyd yn cyfrannu i'r economi wledig ehangach. Er enghraifft, rhwng 2000 a 2003, roedd taliadau cyfalaf ynghyd â chyfraniadau ffermwyr o dan Tir Gofal yn werth £14.25M, ac arhosodd 94% o'r arian hwnnw yn economi Cymru, gyda c.40% o'r gwariant yn digwydd o fewn deg milltir i'r fferm dan sylw. A chymryd yr effeithiau anuniongyrchol i ystyriaeth, roedd effaith y gwariant hwn drwyddi draw ar economi Cymru yn fwy na £21M, a hynny yn ei dro yn cynnal rhyw 385 o Swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn[25]. Cafodd llawer o'r swyddi hyn eu creu mewn ardaloedd anghysbell lle mae wedi bod yn anodd i gynlluniau creu swyddi traddodiadol gael effaith.

Rheoli risg

Nodwn fod y posibilrwydd o roi'r "pecyn cymorth rheoli risg" ar waith yn dal i gael ei ystyried ac y bydd rhagor o wybodaeth am ddull gweithredu Llywodraeth Cymru ar gael maes o law. Mae mwy o ansefydlogrwydd yn y farchnad yn ganlyniad anochel yn sgil datgysylltu cymorthdaliadau oddi wrth gynhyrchiant a'r ffordd fwyaf priodol o ymdrin â hyn yw drwy ddefnyddio'r mecanwaith cymorth incwm yng Ngholofn 1. Bydd defnyddio arian y Cynllun Datblygu Gwledig i'r perwyl hwn yn cael effaith niweidiol ar gynnydd tuag at y targedau amgylcheddol sydd wedi'u nodi yn y Cyfarwyddebau Fframwaith Dŵr a Chynefinoedd yn ogystal ag ar gynnig Cyngor yr UE i ddyrannu 20% o holl wariant y dyfodol i weithgareddau yn ymwneud â newid yn yr hinsawdd.

***Cyfoeth Naturiol Cymru***

***Ebrill 2013***

[24] Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ar yr Undeb Ewropeaidd. Adapting to climate Change: EU Agriculture and Forestry. 8fed Adroddiad Sesiwn 2009-10

[25] Agra-CEAS Consulting (2005). Socio Economic Analysis of Tir Gofal. Adroddiad ar gyfer Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Llywodraeth Cymru.